

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG AC IEUENCTID
1 TACHWEDD 2018

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuencid Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Delyn, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, am 2pm ddydd Iau, 1 Tachwedd 2018.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Healey (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Geoff Collett, Paul Cunningham, Dave Hughes, Kevin Hughes, Dave Mackie, Ian Smith a Martin White

AELODAU CYFETHOLEDIG: Lynn Bartlett a Rebecca Stark

DIRPRWYON: Y Cynghorwyr Gladys Healey (ar gyfer Andy Dunbobbin) a Chris Dolphin (ar gyfer Tudor Jones)

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Patrick Heesom a David Williams. Mr David Hytch

CYFRANWYR: Y Cynghorydd Ian Roberts, Aelod Cabinet Addysg, Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid); a Rheolwr Cyllid. (Ar gyfer cofnod rhif 24) Mr David Edwards - Arweinydd Craidd Sir y Fflint ar gyfer ysgolion Cynradd (GwE) a Mr Martyn Froggett - Arweinydd Craidd Sir y Fflint ar gyfer ysgolion Uwchradd (GwE)

HEFYD YN BRESENNOL: Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuencid a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

21. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Datganodd Mrs Rebecca Stark gysylltiad personol ag eitem rhif 5 ar y rhaglen – Canlyniadau Dysgwyr 2018 (Dros Dro).

22. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2018.

Materion yn Codi

Gan gyfeirio at y pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor ynghylch recriwtio a chadw athrawon a'r gwahaniaethau rhwng athrawon dosbarth ac athrawon ar lefelau rheoli, rhoddodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid) adborth o gyfarfod y Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2018. Dywedodd mai'r meysydd pwnc anoddaf i recriwtio ar eu cyfer oedd Mathemateg, Cymraeg a Gwyddoniaeth. Dywedodd Penaethiaid fod diffyg parodrwydd i ymgymryd ag arweinyddiaeth o systemau bugeiliol mewn rhai ysgolion. Dywedodd y Penaethiaid nad oedd y cynnig o gyllid ychwanegol drwy'r pwyntiau Cyfrifoldeb Addysg a Dysgu yn ddigon i annog pobl i wneud cais am y swyddi hyn, gan nodi'r cyfrifoldeb ychwanegol, yn enwedig lle bo atebolrwydd cyhoeddus ac uchel mewn perthynas â phynciau craidd, fel y prif reswm. Hefyd, roedd Arweinwyr Ysgolion yn ei chael hi'n anodd, gyda thoriadau i'r gyllideb, nid

yn unig i fforddio Taliadau CAD ond hefyd i sicrhau'r lefel briodol o amser digyswllt i alluogi arweinwyr canol i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

23. CYNIGION CAM 2 CYLLIDEB 2019/20

Cyflwynodd y Prif Swyddog adroddiad ar gam 2 cynigion y gyllideb ar gyfer y Portffolio Addysg ac Ieuenctid ar gyfer 2019/20. Rhoddodd wybodaeth gefndir a chyfeiriodd at y rhagolwg ariannol a chynigion cam 1 a Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol Cymru a oedd yn trafod gostyngiad o 1% ac y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar y bwlch a ragwelir ar gyfer 2019/20. Gwnaeth y Prif Swyddog sylw ar y datganiad cyllideb diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Canghellor yr wythnos hon a'r posibilrwydd o gyllid ychwanegol i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru.

Gwahoddodd y Prif Swyddog y Rheolwr Cyllid i adrodd ar risgiau a lefelau gwytnwch y meysydd gwasanaeth o fewn y portffolio Addysg. Gwnaeth y Rheolwr Cyllid sylw ar y datganiadau gwytnwch manwl a baratowyd ar gyfer pob maes gwasanaeth yn ystod yr haf a dywedodd fod hyn wedi cadarnhau bod cwmpas cyfyngedig ar gyfer unrhyw arbedion gweithredol pellach o fewn y portffolio. Eglurodd fod yr Awdurdod ar hyn o bryd yn wynebu gostyngiad o 1% (£1.9m) yn y dyraniad cyllid gan Lywodraeth Cymru, ac o ganlyniad nid oedd unrhyw ychwanegedd ar gyfer pwysau ar y gyllideb, yn cynnwys dyfarniad cyflog yr athrawon.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog a'r Rheolwr Cyllid at y prif ystyriaethau, fel y manylwyd yn yr adroddiad, ac adroddodd y ddau ar bwysau a buddsoddiadau portffolio, dyfarniad cyflog athrawon, pensiynau athrawon ac arbedion cynllunio busnes portffolio.

Yn dilyn y sylwadau gan aelodau yn diolch i aelodau'r Tîm Addysg ac Ieuenctid am eu gwaith caled yn ystod yr heriau ariannol, cytunodd y Prif Swyddog i gyfleu eu sylwadau yn dilyn y cyfarfod.

Gofynnodd y Cynghorydd Kevin Hughes a oedd yr Awdurdod yn gweithio ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill er mwyn cyflawni arbedion ar leoliadau y tu allan i'r sir. Dywedodd y Prif Swyddog fod cost lleoliadau y tu allan i'r sir yn fater cenedlaethol ac eglurodd fod trafodaethau yn cael eu cynnar ar lefel ranbarthol ynghylch y posibilrwydd o greu darpariaeth ranbarthol. Dywedodd fod y brif her yn ymwneud ag ymddygiad heriol ac emosiynol a chyfeiriodd at gost y staff sydd eu hangen i ddarparu cymorth un i un a gofal 24 awr. Yn ystod y drafodaeth, dywedodd y Prif Swyddog fod atal ac ymyrraeth yn allweddol a chyfeiriodd at y gwaith a wnaed i gefnogi ysgolion ag adnabod ac ymyrryd yn gynnar. Cyfeiriodd hefyd ar rôl yr Uned Cyfeirio Disgyblion a'r gwaith estyn allan a gwblhawyd.

Gwnaeth y Cynghorydd Ian Roberts sylw ar effaith y toriadau i gyllid a oedd yn golygu bod llai o adnoddau ar gael ei ddarparu cefnogaeth i ysgolion. Cyfeiriodd hefyd at y pwysau ar athrawon a oedd yn gorfod ymdopi ag ymddygiad heriol rhai o'r disgyblion yn ddyddiol.

Gan gyfeirio at gost lleoliadau y tu allan i'r sir, awgrymodd y Cynghorydd Paul Cunningham y dylid gofyn i Lywodraeth Cymru osod cap ariannol ar ddarparwyr lleoliadau y tu allan i'r sir. Awgrymodd y Prif Swyddog y dylai Pennaeth y Gwasanaeth Cynhwysiant godi'r mater yn ystod y cyfarfod rhanbarthol nesaf â chydweithwyr awdurdodau cyfagos a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru.

Gofynnodd Mrs Rebecca Stark a oedd tystiolaeth o gydberthynas rhwng y cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau plant ar adeg y toriadau i gyllid ysgolion. Wrth gydnabod y pwynt, dywedodd y Prif Swyddog er na fu cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau, nid dyma oedd yr unig ffactor a chyfeiriodd at yr heriau yr oedd pobl ifanc yn wynebu ac amharodrwydd staff addysgu i ymgymryd â rôl fugeiliol gan ymgysylltu â sefydliadau a theuluoedd. Parhaodd gan ddweud fod ysgolion ar lefel genedlaethol yn cael eu hannog i ysgrifennu at eu Haelodau Cynulliad er mwyn eu gwahodd i ymweld â'u hysgolion er mwyn iddynt allu gweld effaith y penderfyniadau a wnaed ynghylch cyllid.

Mewn ymateb i bryder a godwyd gan y Cynghorydd Gladys Healey ynghylch mynd i'r afael ag ymddygiad heriol rhai disgyblion mewn ysgolion uwchradd, sicrhodd y Prif Swyddog fod ysgolion cynradd yn gweithio'n galed â phlant ifanc i addasu ymddygiad a chyfeiriodd at y strategaethau a'r ymyriadau a ddefnyddiwyd gan ysgolion i wella ymddygiad heriol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Kevin Hughes at y sylwadau a wnaed yn ystod cyfarfod diweddar y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac lechyd, a'r angen am gyd-ymgyrch Cysylltiadau Cyhoeddus barhaol i sicrhau fod y cyhoedd wedi deall yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r dewisiadau arbedion portffolio, fel y dengys yn yr adroddiad; a
- (b) Bod Aelodau yn cytuno i geisio codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o oblygiadau'r heriau ariannol presennol ar gyfer gwasanaethau.

24. CANLYNIADAU DYSGWR 2018 (DROS DRO)

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) Mr David Edwards, Arweinydd Craidd Sir y Fflint ar gyfer ysgolion Cynradd, a Mr Martyn Froggett, Arweinydd Craidd Sir y Fflint ar gyfer ysgolion Uwchradd (GwE) i'r cyfarfod.

Cyflwynodd y Prif Swyddog yr adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y canlyniad dros dro a gyflawnwyd gan ddysgwyr Sir y Fflint ar draws pob cyfnod o Addysg yn 2018. Rhoddodd wybodaeth gefndir a dywedodd, yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gyhoeddi asesiadau athrawon yn y dyfodol, nad oedd Llywodraeth Cymru bellach yn cyhoeddi data cymharol Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 ar lefel ysgol, awdurdod lleol a chonsortia ac felly, tu hwnt i gymhariaeth â chyfartaleddau cenedlaethol nid oedd gwybodaeth gymharol neu feincnodi ar gael. O ganlyniad i'r newidiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag adrodd data, cytunodd

y Prif Swyddogion Addysg yng Ngogledd Cymru y byddai adroddiad craffu safonol yn cael ei lunio gan GwE er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r newidiadau a dull cyson ar draws y rhanbarth yn cynnwys yr holl setiau data. Mae trosolwg manwl o berfformiad Sir y Fflint wedi'i gynnwys yn yr atodiad i'r adroddiad.

Adroddodd y Prif Swyddog ar y prif ystyriaethau yn yr adroddiad a dywedodd, ar y cyfan, fod canlyniadau Sir y Fflint ar draws yr holl camau allweddol yn parhau i fod yn gryf a fod perfformiad yn cymharu'n dda â chyfartaleddau rhanbarthol a chenedlaethol. Tynnodd sylw at y diwygiad i arholiadau TGAU yng Nghyfnod Allweddol 4 ac effaith cyflwyniad cyfres o gymwysterau TGAU newydd mewn Gwyddoniaeth, fel y manylwyd yn yr adroddiad. Eglurodd y Prif Swyddog fod newid sylweddol wedi bod i ffiniau graddau ers yr haf 2017 a mis Tachwedd 2017 o'i gymharu â'r haf 2018, yn enwedig i radd C mewn Saesneg a Mathemateg a oedd wedi ei gwneud yn anodd i ysgolion sicrhau rhagamcaniadau cywir a gosod targedau. Eglurodd fod y mater hwn yn destun cyfathrebu swyddogol rhwng Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Rebecca Stark, cytunodd y Prif Swyddog i ddsbarthu copi o'r ymateb gan CBAC i llythyr a anfonwyd gan y Penaethiaid, i'r Pwyllgor.

Cyfeiriodd Mr David Edwards at y newidiadau i'r meysydd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen a dywedodd wrth gymharu â'r cyfartaleddau cenedlaethol, fod ysgolion yn Sir y Fflint yn perfformio'n dda. Dywedodd hefyd fod canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 Sir y Fflint yn parhau i fod yn gryf a bod canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau disgwylidig neu uwch yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer yr holl bynciau craidd.

Wrth drafod Arweinyddiaeth ysgolion, dywedodd Mr Edwards fod diddordeb parhaus mewn athrawon a oedd yn ymgeisio am swyddi arweinyddiaeth neu brifathrawiaeth a dywedodd fod y canran o ymgeiswyr o Sir y Fflint yn uwch na rhanbarthau eraill.

Rhoddodd Mr Martyn Froggett wybodaeth gyd-destunol o ran Cyfnod Allweddol 4 a dywedodd, er i'r wybodaeth gychwynnol am ganlyniadau gael ei rhannu nid oedd mynediad, hyd yma, at ddata cymharol a meincnodi. Dywedodd hefyd fod perfformiad ysgolion Sir y Fflint ar y rhan fwyaf o'r dangosyddion perfformiad yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o'i gymharu â 2017 (yn seiliedig ar ddata dros dro). Eglurodd fod y perfformiad dirywiol yn Saesneg yn destun trafodaethau parhaus gyda Chymwysterau Cymru a CBAC yn dilyn pryderon difrifol a godwyd gan ysgolion ar draws y rhanbarth lle'r oedd perfformiad ysgolion wedi'i effeithio gan amser cyflwyno a chynnydd yn y gofynion ar gyfer ffiniau graddau yn arholiadau'r Haf. Effeithiodd hyn hefyd ar berfformiad ar lefel 2+ lle'r oedd Saesneg yn rhan allweddol o'r mesur.

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan Rebecca Stark ar effaith y newid i ffiniau graddau ar ddisgyblion, cyfeiriodd y Prif Swyddog at y pryderon a godwyd gan Benaethiaid yn ystod cyfarfod diweddar y Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd a dywedodd y byddai'n ceisio caniatâd gan y Ffederasiwn i rannu'r llythyr a anfonodd at CBAC â'r Pwyllgor.

Bu i'r Prif Swyddog gydnabod y sylwadau pellach a wnaed gan y Cynghorydd Dave Mackie ar effaith y newid i ffiniau graddau a'i bryderon fod disgyblion wedi cael cam gan y system. Dywedodd fod ymateb wedi'i dderbyn gan CBAC yn trafod y pryderon dybryd a fynegwyd gan ysgolion Sir y Fflint a GwE a dywedodd fod hyn yn cael ei drafod ar hyn o bryd a byddai llobio yn erbyn y newid yn parhau. Yn dilyn cais gan Rebecca Stark, cytunodd y Prif Swyddog i ddsbarthu copi o'r ymateb gan CBAC i'r Pwyllgor.

Awgrymodd y Cynghorydd Paul Cunningham y dylid anfon llythyr at CBAC i amlinellu pryderon y Pwyllgor. Cynigodd y Cynghorydd Ian Roberts fod cynrychiolwyr o CBAC yn cael eu gwahodd i gyfarfod y Pwyllgor er mwyn galluogi aelodau i fynegi eu pryderon ar y mater o newid ffiniau graddau a'r monopoli a gedwir gan CBAC. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Hwylusydd, ar ran y Cadeirydd, yn ysgrifennu at CBAC i wahodd cynrychiolydd i gyfarfod yn y dyfodol i drafod y newid diweddar i ffiniau graddau Saesneg a monopoli CBAC. Yn dilyn awgrym pellach gan y Cynghorydd Ian Roberts, cytunodd y Pwyllgor, pe bai CBAC yn derbyn y gwahoddiad, byddai gwahoddiad hefyd yn cael ei anfon at y Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd i enwebu cynrychiolydd / cynrychiolwyr i fynychu'r cyfarfod i amlinellu eu pryderon i'r Pwyllgor.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod cyrhaeddiad plant a phobl ifanc Sir y Fflint ar gyfer 2017-18 yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, a'r data dros dro ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 yn cael ei nodi; a
- (b) Bod y Pwyllgor yn gwahodd cynrychiolydd o CBAC a chynrychiolydd o Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd i fynychu cyfarfod yn y dyfodol i drafod y newid diweddar i ffiniau graddau Saesneg a monopoli CBAC.

25. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol er mwyn ei hystyried.

Yn dilyn cais gan y Cynghorydd Mackie, cytunwyd y bydd adroddiad ar y fenter ADTRAC sy'n ymwneud â mecanweithiau cyllido cymdeithasol Ewropeaidd i fodloni anghenion pobl ifanc yn cael ei drefnu ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i'w hystyried yn y cyfarfod ar 16 Mai 2019.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd, yn cael ei chymeradwyo; a
- (b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

26. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 4.50 pm)

.....
Cadeirydd